

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 15 Hydref 2020

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 22 HYDREF 2020 am 10.00 am O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA**

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020 (copi ynghlwm).

10.05am – 10.10am

5 EFFAITH ADOLYGIAD ADDYSG GYNRADD RHUTHUN (Tudalennau 15 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Prif Reolwr - Cefnogi Ysgolion (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor asesu effaith adolygiad addysg gynradd ardal Rhuthun yn erbyn nodau lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015..

10.10am – 10.45am

6 POLISI BUDDION CYMUNEDOL (Tudalennau 43 - 70)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Canolbwynt Cymunedol (copi ynghlwm) sy'n gofyn am sylwadau a chefnogaeth y Pwyllgor i Bolisi Buddion Cymunedol y Cyngor a'r argymhellion mewn perthynas â'i ddefnydd.

10.45am – 11.15am

EGWYL 11.15am - 11.30am

7 ARCHIFAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU A CHARCHAR RHUTHUN
(Tudalennau 71 - 82)

Ystyried adroddiad gan Reolwr Tîm Trawsnewid Busnes (copi ynghlwm) sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y prosiect archifau ac sy'n gofyn am farn yr aelodau am y cynigon ar gyfer defnydd Carchar Rhuthun i'r dyfodol.

11.30am – 12pm

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 83 - 106)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12pm – 12.20pm

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.20pm – 12.30pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)

Kathleen Jones

Neil Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn , Dydd Iau, 3 Medi 2020 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd).

Cynghorydd Huw Hilditch Roberts – Roedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Phlant yn bresennol ar gyfer eitem 5.

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Roedd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gyfer eitem 6.

Roedd y Cynghorydd Brian Jones - Roedd yr aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff, Trafinidaeth a'r Amgylchedd ar gyfer eitem 7.

Arsylwyr: Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Lloyd Davies, Gwyneth Kensler, Barry Mellor ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyoeddus (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Addysg Dros Dro (GD Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro (RM), Pennaeth Cyllid ac Asedau (SG), Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Tai (DL), Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Risg ac Asedau (TT), Cydlynnydd Craffu (RhE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE)

Yr oedd y Gohebydd Democratiaeth Leol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol o bell i arsylwi ar y trafodion.

SYLWER

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn sgil pandemig y Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Roedd pob aelod wedi cael cyfle i fod yn bresennol fel arsylwyr. Gwahoddwyd y Gohebydd Democratiaeth Leol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru hefyd i arsylwi.

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganwyd y cysylltiadau canlynol – roedd pob un yn gysylltiad personol:

Cynghorydd Huw O Williams – mae ei fab yn ddisgybl yn un o ysgolion y sir
Cynghorydd Meirick Lloyd Davies – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog
Cynghorydd Cheryl Williams – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Crist y Gair
Cynghorydd Tina Jones – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Ysgol Melyd
Cynghorydd Andrew Thomas – mae'n llywodraethwr yn un o ysgolion y sir
Cynghorydd Merfyn Parry – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor
Cynghorydd Graham Timms – mae'n llywodraethwr yn un o ysgolion y sir
Cynghorydd Emrys Wynne – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – mae'n rhiant llywodraethwr yn un o ysgolion y sir.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau bryn.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020.

Cywirdeb

Tudalen 6, Datgan Cysylltiad - Dywedodd y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies ei fod wedi datgan cysylltiad personol fel llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac fel aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru nid Bwrdd.

Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y cywiriadau uchod, y dylid derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir a dilys

5 CYNLLUN ADFER AR GYFER YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) gan yr Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a ddechreuodd drwy ddiolch i holl staff Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych – gan gynnwys y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gadael, penaethiaid ysgolion, rhieni a phlant am eu gwaith caled a'u hymrwymiad yn ystod cyfnod heriol y cyfyngiadau.

Cyn dechrau gwyliau'r haf, cafodd y dysgwyr gyfle i fynychu sesiynau cadw mewn cysylltiad, dal i fyny a pharatoi ar gyfer y tymor newydd. Ar gyfartaledd, manteisiodd cyfradd o 50%, er, mewn rhai ysgolion roedd hyd at 85% - 90% yn bresennol.

Roedd y Rhanbarth, yr awdurdod lleol (ALI) ac ysgolion wedi bod yn paratoi ar gyfer pedair sefyllfa bosibl ar ddechrau tymor newydd yr ysgol ond fe'u synnwyd pan

gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canlyniad yr oeddent yn ei ddisgwyl leiaf - 100% o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol - yr wythnos cyn i ysgolion gau ar gyfer gwyliau'r haf. Hefyd gwnaed cyhoeddiad pellach (ond heb ganllawiau) ynghylch defnyddio gorchuddion wyneb gan Lywodraeth Cymru yr wythnos ddiwethaf. Mewn ymateb, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r holl Benaethiaid a oedd wedi cytuno y byddai'n ofynnol i blant ysgolion uwchradd wisgo gorchuddion wyneb wrth symud rhwng dosbarthiadau yn y coridorau.

Cydnabu'r Pennaeth Addysg Dros Dro rôl gwahanol adrannau eraill drwy'r Awdurdod a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o helpu'r Gwasanaeth Addysg i ymateb i'w heriau. Rhoddodd sicrwydd fod ysgolion yn barod i dderbyn y plant, roedd disgwyl i bob un ohonynt fod wedi dychwelyd erbyn 14 Medi. Roedd asesiadau risg manwl yn cynnwys arlwyyo, glanhau, trafndiaeth, Adnoddau Dynol ac ati wedi'u cynnal i sicrhau lles 16,000 o fyfyrwyr Sir Ddinbych.

Mewn ymateb i gwestiynau cafodd y Pwyllgor:

- ei sicrhau bod cefnogaeth a chapasiti yn eu lle ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Phlant yn dilyn symudiad diweddar y Pennaeth Gwasanaeth blaenorol i Awdurdod arall;
- dywedwyd bod y penodiadau dros dro ar gyfer Pennaethiaid Addysg a Gwasanaethau Plant wedi'u gwneud am gyfnod o 12 mis (wedi cychwyn ym Mehefin 2020) gyda'r disgwyliad o benderfyniad parhaol ynghylch strwythur y Gwasanaeth ym mis Rhagfyr;
- cafwyd sicrwydd bod y newidiadau a wnaed i'r Polisi Dyrannu Tai a'r Rheoliadau Digartrefedd gan Lywodraeth Cymru (LIC) mewn ymateb i Covid-19 yn dal ar waith a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nhw.
- cadarnhawyd y byddai canllawiau Llywodraeth Cymru a phrotocol gweithredu dilynol yn cael eu dilyn pe bai unrhyw blant yn arddangos symptomau tra eu bod yn yr ysgol;
- dywedwyd nad oedd unrhyw gynlluniau i brofi plant asymptomatig – penderfyniad i lechyd Cyhoeddus Cymru oedd hynny yn hytrach nag Awdurdodau Lleol;
- dywedwyd na fyddai hysbysiadau cosb benodedig am ddiffyg presenoldeb yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd ac na fyddai data presenoldeb a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn academaidd bresennol neu flaenorol;
- cafwyd sicrwydd bod y broses amddiffyn plant wedi parhau yn ystod y cyfyngiadau a bod cyswllt wedi'i wneud drwy gydol y cyfnod gyda'r holl blant bregus y gwyydys amdanynt. Rhagwelwyd y byddai nifer yr atgyfeiriadau plant yn cynyddu ar ôl i'r ysgolion ailagor yn llawn;
- dywedwyd bod costau ychwanegol ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac ati yn cael eu talu ar hyn o bryd drwy gyllideb yr ysgol ond bod grantiau Covid-19 yn cael eu defnyddio;
- cydnabuwyd bod trefniadau cludiant i'r ysgol yn anodd o ystyried y capasiti is ar gyfer cadw pellter cymdeithasol; a
- phwysleisiwyd bod canllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ysgolion ac arferion gweithredu gwasanaethau cymorth cysylltiedig yn newid yn rheolaidd.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd unwaith eto i'r Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Pennaeth Addysg Dros Dro a Phennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro.

Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad yn yr adroddiad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod i:

- (i) gefnogi'r camau a gymerwyd hyd yma i alluogi ysgolion i agor yn ddiogel ar gyfer pob disgybl ym mis Medi 2020, a chymeradwyo'r Cynlluniau Adfer ôl-COVID sy'n datblygu ar gyfer Ysgolion; ac***
- (ii)estyn diolch diffuant y Pwyllgor i holl staff gwasanaethau Addysg a gwasanaethau eraill y Cyngor am eu holl waith caled a'u hymdrechion yn ystod y cyfyngiadau ac wrth gynllunio a hwyluso'r gwaith o ailagor ysgolion y Sir***

6 CYNLLUN ADFER AR GYFER ADEILADAU'R CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn amlinellu cynnydd ar adeiladau'r Cyngor lle gellir lleoli staff swyddfa:

- Paratoi adeiladau ar gyfer ailagor
- Datgomisiynu unrhyw ddefnydd dros dro o adeiladau a
- Chynnal a chadw eiddo

Paratowyd y ddogfen gan dîm amlddisgyblaethol yn cynnwys pob agwedd yn ymwneud â threfniadau gweithio (cadw pellter cymdeithasol) ac lechyd, Diogelwch a Lles yn y gweithle yr oedd atodiadau 1 a 2 yn cyfeirio atynt. Roedd pob Gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg yn eu meysydd eu hunain.

O ran strwythurau adeiladu gohiriwyd nifer o waith cydymffurfio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau:

- I. Asbestos – yn ffodus, roedd gwaith wedi'i gwblhau cyn y cyfyngiadau'n golygu bod y rhaglen waith yn dal yn unol â'r targed.
- II. Roedd nifer fach o Asesiadau Risg Tân ar ôl i'w gwneud ond byddent yn cael eu cwblhau wrth symud ymlaen ac
- III. Roedd gwaith arferol i wasanaethu nwy ac ati wedi bod yn digwydd ac nid oedd unrhyw broblem.

Roedd rhestr gyflawn o statws eiddo. Statws – Coch (wedi cau), Ambr (rhannol agored, llai o oriau) a Gwyrdd (cwbl agored) – yn adlewyrchu'n briodol sefyllfa'r cyfnod adfer.

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod a wnelo'r adroddiad â pharatoi adeiladau a phrosesau ar gyfer dychwelyd i'r gwaith yn y swyddfa – nid

gweithio ystwyth a fyddai'n rhan o thema adfer arall. Ers paratoi'r adroddiad, roedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cytuno i ddefnyddio gorchuddion wyneb ar gyfer staff lle'r oedd asesiad risg yn barnu bod hynny'n angenrheidiol. Roedd yr undebau'n cynnal ymgynghoriad ynglŷn â hyn ar hyn o bryd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw adeiladau wedi'u datgomisiynu o ganlyniad i newid patrymau gwaith yn ystod cyfnod y cyfyngiadau.

Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod:

- (i) cefnogi'r cynnydd a wnaed hyd yma i baratoi adeiladau'r Cyngor ar gyfer ailagor, datgomisiynu unrhyw ddefnyddiau dros dro, a hwyluso a delio â gwaith cynnal a chadw sy'n dal angen ei wneud;***
- (ii) estyn diolch diffuant y Pwyllgor i'r holl staff am eu holl waith caled a'u hymdrechion i sicrhau diogelwch adeiladau'r Cyngor yn ystod y pandemig a pharatoi ar gyfer eu hail-agor yn ddiogel; a***
- (iii)gofyn am adroddiad dilynol gerbron y Pwyllgor mewn chwe mis ar y cynnydd a wnaed o ran adfer ar gyfer adeiladau'r Cyngor ar ôl COVID-19***

7 CYNLLUN ADFER AR GYFER PRIFFYRDD A'R PARTH CYHOEDDUS

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn esbonio'r dull dau gam o wella fel:

1. Tymor byr – ailddechrau gweithgareddau cynnal a chadw priffyrdd arferol a
2. Model cynaliadwy – cynllun cynnal a chadw tymor hir sy'n cynnwys strwythurau'r adran yn y dyfodol a thechnoleg newydd ar gyfer mwy o effeithlonrwydd.

Cydnabu Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol nad oedd yr adroddiad yn rhoi darlun arbennig o gadarnhaol ond bod angen bod yn agored ac yn onest am yr heriau yr oedd y Gwasanaeth yn eu hwynebu. Digwyddodd y 7 mis o darfu ar gynnal a chadw priffyrdd ar yr union adeg y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer y flwyddyn wedi'i wneud. Roedd colli'r cylch cynnal a chadw priffyrdd blynyddol cyfan yn golygu bod ffyrdd yr oedd angen gwneud gwaith iddynt o'r blaen wedi dirywio mwy ac y byddent yn costio llawer mwy i'w codi i safon dderbyniol eto. Roedd gwaith priffyrdd wedi ailddechrau fel mater o frys er mwyn cyflawni cymaint â phosibl cyn dechrau'r gaeaf gyda'i risgiau cynhenid - graeanu'r gaeaf ac ail don bosibl o Covid-19. Roedd cynlluniau wrth gefn yn cael eu datblygu i reoli'r risg honno.

Mewn ymateb i aelodau'r Pwyllgor, tynnwyd sylw gan Bennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheolwr Risg ac Asedau:

- at yr anhawster o sicrhau contractwyr i wneud gwaith trin wyneb y ffyrdd pan oedd cyn lleied ohonynt a galw mawr amdanynt drwy'r holl wlad;
- dywedodd fod contractwyr ar y cyfan yn haws cael gafael arnynt pan oedd gwaith ar raddfa fwy ar gael, oedd yn golygu bod rhaglen gymharol fach Sir Ddinbych o dan anfantais;
- tynnodd sylw at y ffaith bod yr arolygon sgorio cyflwr ffyrdd lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn fel arfer wedi'u gohirio yn ystod y 6 mis diwethaf, oherwydd Covid-19. Fodd bynnag, roedd yr arolwg ffyrdd ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol wedi'i gwblhau ar 6 Awst. Disgwylir y canlyniadau yn ôl Gwanwyn 2021;
- cytunwyd i ystyried ailgynnull gweithdy'r aelodau (yn rhithiol) ar y Cod Ymarfer Priffyrdd a'r Strategaeth Cynnal a Chadw a gynlluniwyd cyn cyfnod y cyfyngiadau;
- cydnabu'r capasiti cyfyngedig yn sgil cydbwysu adnoddau ar gyfer gwaith cynnal a chadw gyliau a ffosydd. Am y rheswm hwnnw, cedwir rhywfaint o gapasiti ar gyfer gwaith yn ôl yr angen, er bod llawer o'r gwaith hwnnw wedi'i drefnu;
- cadarnhawyd y cysylltwyd â pherchnogion tir ynglŷn â chyflwr eu gwrychoedd ar ochr y ffordd a'u bod wedi cyflwyno rhybudd i'w torri'n ôl, lle bo angen; a
- dywedodd mai anaml yr oedd Dŵr Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am ddŵr wyneb y ffordd ond, pan oedd yn gyfrifol, fod yr Awdurdod wedi gweithio gyda nhw i'w ddatrys;

Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad yn yr adroddiad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisieu atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod:

- (i) cefnogi'r cynllun adfer, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad;**
- (ii) estyn diolch diffuant y Pwyllgor i holl staff Priffyrdd a Pharth Cyhoeddus am eu holl waith caled ac ymdrechion yn cyflwyno gwasanaethau hyd orau eu gallu yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clod, ac am eu gwaith yn paratoi a chynllunio adferiad y Gwasanaethau o ymateb i'r pandemig i ddarparu busnes o ddydd i ddydd ac amcanion adferiad y Gwasanaeth; a**
- (iii) gofyn bod y Gweithdy Aelodau ar God Ymarfer Priffyrdd a materion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth y bu'n rhaid ei ganslo oherwydd y pandemig yn cael ei ail-drefnu ac yn cael ei gynnal trwy gyfrwng fideo gynhadledd cyn gynted â phosibl.**

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor gyda'r bwriad i ganolbwyntio ar y cyfnod adfer o bandemig Covid-19 ac aildrefnu pynciau a restrwyd yn flaenorol ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.

Atgoffwyd y Pwyllgor eu bod wedi cyfarfod ddiwethaf ym mis Mawrth, ond bod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi cyfarfod yn y cyfamser ac wedi cytuno i glirio holl raglenni gwaith cychwynnol y Pwyllgorau Craffu pan oedd cyfarfodydd yn ailgynnwyl, gan ohirio pob pwnc yn y rhaglen bresennol, er mwyn canolbwyntio ar themâu adfer Covid-19.

Yn ogystal â hyn, roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi trefnu cyfarfod ychwanegol ar 12 Hydref 2020 (ar ôl i'r holl Bwyllgorau Craffu gyfarfod), pan fyddent mewn gwell sefyllfa i ddewis yr eitemau a oedd yn weddill (atodiad 1b) i'r cynlluniau gwaith i'r dyfodol, gan gofio y gallai rhai adroddiadau gael eu gohirio oherwydd blaenoriaethau oedd yn gwrthdaro gan adrannau wrth aildddechrau'r gwasanaeth arferol.

Roedd yr adroddiadau a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer Gorffennaf/Medi 2020 bellach ar gael:

- Polisi Buddion Cymunedol
- Gofal Plant Am Ddim Llywodraeth Cymru
- Dyrannu Cyllid Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Effaith Adolygiad Ardal Addysg Gynradd Rhuthun (adroddiad dilynol)
- Cynigion ar gyfer y Dyfodol ar gyfer Carchar Rhuthun.

Neilltuwyd cyfarfod mis Hydref yn wreiddiol i ddelio â materion llifogydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn brysur yn ymateb i effaith Covid-19 ac nid oedd yn gallu datblygu rhywfaint o'i waith modelu ac ni fyddai mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod ar 10 Rhagfyr.

Cynigiwyd y dylid ychwanegu'r adroddiadau canlynol at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Hydref

- Cynigion ar gyfer y Dyfodol ar gyfer Carchar Rhuthun.
- Polisi Buddion Cymunedol
- Effaith Adolygiad Ardal Addysg Gynradd Rhuthun (adroddiad dilynol) a
- Dyrannu Cyllid Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Roedd Atodiad 4 yn adrodd ar gynnydd a wnaed ar argymhellion y cyfarfod diwethaf ym mis Mawrth. Roedd swydd Swyddog Rhostir wrthi'n cael ei llenwi. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ailystyried eu penderfyniad i wrthod cyfrannu at gyllido'r swydd. Dywedodd y Cydlynnydd Craffu nad oedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, ond cytunodd i fynd ar drywydd y mater gyda nhw.

Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad yn yr adroddiad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.

Penderfynwyd: - Cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar yr argymhellion a wnaed yn ystod trafodaethau ar faterion agenda cynharach a chynnwys yr eitemau a awgrymwyd yn ystod y drafodaeth uchod.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	22 Hydref 2020
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng. Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Geraint Davies, Pennaeth Addysg Dros Dro
Awdur yr Adroddiad	James Curran, Prif Reolwr – Cymorth i Ysgolion
Teitl	Effaith yr Adolygiad o Ysgolion Cynradd Rhuthun

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio asesu effaith yr adolygiad o Ysgolion Cynradd Rhuthun yn erbyn saith nod lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Ystyriodd aelodau brif effaith Adolygiad Rhuthun yn y cyfarfod ym mis Hydref 2017. Cytunwyd y dylid asesu'r effaith yn erbyn y saith nod lles ymhellach o ran pa effaith mae hyn wedi'i chael ar y gymuned ehangach.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried y canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion yn unol â hynny; a
- 3.2 cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Cytunodd Cabinet Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2012 i ddechrau ymgynghoriad anffurfiol ynghylch adolygiad o'r Ddarpariaeth Gynradd yn ardal Rhuthun. Cytunwyd y byddai'r adolygiad ardal yn canolbwyntio ar y nodau

canlynol; Sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth addysg o ansawdd uchel; Gwella ansawdd adeiladau ysgol a chyfleusterau a Darparu'r nifer cywir o lefydd, o'r math cywir yn y lleoliad cywir. Adolygodd y Cabinet ganfyddiadau'r ymgynghoriad anffurfiol a gwnaethpwyd chwe argymhelliad a fyddai'n cael effaith ar ddarpariaeth ysgolion yn yr ardal.

- 4.2 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn dair blynedd yn ôl, a roddodd grynodedb o'r canlyniadau a manylion y gwersi a ddysgwyd. Ehangwyd a diweddarwyd y wybodaeth hon yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
- 4.3 Gofynnodd y Pwyllgor i'r effaith gael ei hasesu yn erbyn y saith nod lles yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn cynorthwyo â hyn, cynhaliwyd asesiad o effaith yr adolygiad ehangach ar Sir Ddinbych ffyniannus, Sir Ddinbych wydn, Sir Ddinbych iachach, Sir Ddinbych fwy cyfartal, Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol, Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu a Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang. (gweler Atodiad 1)
- 4.4 Ar y cyfan, daeth yr asesiad i'r canlyniad fod effaith gyffredinol yr adolygiad wedi bod yn gadarnhaol.
- 4.5 Sir Ddinbych ffyniannus – roedd cam adeiladu pob prosiect yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r farchnad lafur a chadwyni cyflenwi lleol. Maent hefyd wedi cynnig cyfleoedd i greu prentisiaethau. Un o oblygiadau uniongyrchol y prosiectau adeiladu oedd buddsoddiad i'r seilwaith lleol, gan gynnwys priffyrdd, llwybrau diogel i ysgolion a nodweddion rheoli llifogydd. Mae sefydlu cyfleusterau ar y safle ar gyfer plant oedran cyn ysgol wedi gwella opsiynau gofal plant estynedig ar gyfer rhieni sy'n gweithio a throsglwyddiad o'r cyfnod cyn ysgol i'r dosbarth meithrin.
- 4.6 Sir Ddinbych wydn – mae buddsoddiad enfawr wedi'i wneud i fioamrywiaeth a nodweddion effeithlon o ran ynni ym mhob cynllun. Mae'r buddsoddiad i reoli perygl llifogydd yng Nglasdir a'r posibilrwydd i ddatblygu safleoedd diangen yn goedwigoedd yn cefnogi'r farn fod yr effaith yn gadarnhaol.
- 4.7 Sir Ddinbych iachach – cynnydd mewn cyfleoedd i hyrwyddo ffordd o fyw iach o ganlyniad i fuddsoddiad mewn cyfleusterau ar safleoedd ac oddi ar safleoedd. Mae'r cysylltiadau â llwybrau teithio llesol presennol o'r safleoedd newydd a'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol yn cefnogi'r farn fod yr

effaith wedi bod yn gadarnhaol. Yn ogystal â hynny, mae defnyddio rhan o safle gwag i ymestyn cyfleusterau ar safle'r ysbyty gerllaw yn cryfhau'r farn hon.

- 4.8 Sir Ddinbych gyda Chymunedau Cydlynol – bydd y penderfyniad i fuddsoddi a chynnal darpariaeth ysgolion gwledig lleol o fantais i'r cymunedau lleol gan helpu i gadw teuluoedd ifanc yn yr ardaloedd hyn a chyfrannu at gryfhau'r Gymraeg ar draws yr ardal.
- 4.9 Mae meysydd eraill o'r asesiad yn amlygu'r safbwyntiau sy'n cystadlu o ran rhaglen newid. Er enghraifft, o ran Sir Ddinbych fwy cyfartal, mae'r buddsoddiad a'r newid wedi gwella darpariaethau ffydd a'r Gymraeg mewn rhai ysgolion. Mae hefyd wedi caniatáu ar gyfer gwelliant mewn cyfleusterau i ddisgyblion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y buddion hyn yn cael eu gosod yn erbyn y safleoedd a gollwyd a allai gael effaith ar hygyrchedd, yn arbennig ar gyfer darpariaeth cyn ysgol lle nad yw cludiant yn statudol.
- 4.10 Mae effaith gyffredinol y cynigion ar Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu yn gadarnhaol. Mae'r cynigion wedi arwain at fuddsoddiad a chynnydd yng nghapasiti cyffredinol ysgolion cyfrwng Cymraeg y dref a'r ardaloedd cyfagos. Anogwyd contractwyr i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod y cam adeiladu. Mae'r cyfleusterau yn caniatáu ar gyfer gwelliant cyffredinol mewn cyfleusterau ar gyfer cynnal gweithgareddau hyrwyddo y tu allan i oriau ysgol a'r gallu i gynnal digwyddiadau dathlu ar safleoedd ysgolion, gan nad oedd gan nifer o ysgolion fynediad at neuaddau yn y gorffennol. Mae cyfleusterau modern, goleuadau ac offer sain ac ati bellach yn y safleoedd hyn, er mwyn cynnal eisteddfodau a digwyddiadau eraill.
- 4.11 Mae elfen adeiladu'r rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Roedd pwyslais cryf ar iechyd a diogelwch a lles yn ystod y cam adeiladu a ffocws cryf ar fuddion cymunedol gyda'r targedau ar gyfer llafur, cadwyni cyflenwi a chyfleoedd hyfforddi lleol yn cael eu bodloni drwy Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru a gofynion Llywodraeth Cymru.
- 4.12 Mae'r buddsoddiad neu'r newid hwn wedi cael effaith ar ysgolion mewn nifer o ffyrdd. Mae 61% o leoedd ysgolion cynradd yn yr ardal bellach mewn adeiladau newydd, ac mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos mai dim ond un

dosbarth symudol sy'n parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer addysg, sef yn Ysgol Borthyn. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion ac ardaloedd lle na fydd y canfyddiadau hyn wedi cael nemor ddim effaith.

- 4.13 Mae'r ysgolion y buddsoddwyd ynddynt wedi gweld newid yn amgylchedd yr ysgol. Nid oedd mynediad uniongyrchol at yr ardaloedd awyr agored yn yr hen safleoedd, roeddent yn defnyddio llety symudol, nid oedd llefydd i barcio ar y stryd ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid, ac mewn rhai achosion, nid oedd cyfleusterau bwyta ar gyfer disgyblion. Mae'r adborth gan gymuned ehangach yr ysgolion wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt, ac mae'n amlwg fod y buddsoddiad gan Sir Ddinbych wedi trawsnewid y profiad dysgu i'r plant a'r bobl ifanc.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Datblygwyd y cynigion hyn i fodloni mesurau llwyddiant Cynllun Corfforaethol 2012-2017, yn arbennig y gwelliant sylweddol i ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgolion a'r gostyngiad sylweddol yn nifer y dosbarthiadau symudol a ddefnyddir. Mae'r gwaith hwn hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau presennol y Cynllun Corfforaethol o ran parhau i foderneiddio ysgolion drwy'r Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Rhagwelir y bydd cyfanswm y buddsoddiad cyffredinol yn y 4 ysgol yn ardal Rhuthun yn £20.3 miliwn. Ariannwyd y gwaith fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif a chafwyd cyllid cyfatebol o 50/50 drwy Raglen Band A Llywodraeth Cymru. Roedd y cynigion yn cynhyrchu arbedion drwy gynigion trefniadaeth ysgolion a gwaredu'r llety symudol. Defnyddiwyd yr arbedion hyn ar gyfer benthyca darbodus i gefnogi'r Cynllun Corfforaethol.
- 6.2. Gweithiodd nifer o dimau o fewn y Cyngor gyda'i gilydd i ddarparu'r prosiectau/ffrydiau gwaith hyn yn sgil y ddarpariaeth Band A a'r cynigion ar gyfer ardal Rhuthun. Yn ogystal â'r tîm addysg, roedd staff yn y gwasanaethau Dylunio ac Adeiladu, TGCh, Marchnata a Chyfathrebu, AD a'r Gyfraith hefyd ynghlwm â'r gwaith.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brif ganlyniadau'r Asesiad o Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheisiwyd penderfyniad yn yr adroddiad.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Roedd risgiau pob prosiect/ffrwd gwaith a oedd ynghlwm â'r adolygiad yn cael eu monitro'n rheolaidd wrth i'r prosiectau gael eu datblygu. Pan roedd risgiau'n datblygu i fod yn broblemau, cawsant eu huwchgyfeirio at y Noddwr Prosiect i'w datrys.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 7.4.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau craffu mewn perthynas ag asesu effaith polisïau a phenderfyniadau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Review of Ruthin Primary Area provision

Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	830
Brief description:	The impact assessment seek to examine the impact of the Ruthin Area Primary Review based on the seven elements of the Wellbeing goals.
Date Completed:	Version: 0
Completed by:	
Responsible Service:	Education & Children Services
Localities affected by the proposal:	Ruthin,
Who will be affected by the proposal?	Pupils, parents and staff at the schools in the Ruthin area were impacted on by the proposal.
Was this impact assessment completed as a group?	Yes

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

★ ★ ★ ☆ (3 out of 4 stars) Actual score : 23 / 30.

Implications of the score

This assessment considers the overall impact of the Ruthin Area Review. The adopted approach looked at maintaining existing service methods rather than different approaches. All consultation was undertaken in accordance with legislation and the requirement of the school organisation code.

Summary of impact

Well-being Goals

A prosperous Denbighshire

A resilient Denbighshire

A healthier Denbighshire

A more equal Denbighshire

A Denbighshire of cohesive communities

A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

A globally responsible Denbighshire

Positive

Positive

Positive

Positive

Positive

Positive

Positive



Main conclusions

The overall impact of the review has been assessed as positive for each wellbeing goal.

The impact on a prosperous Denbighshire is positive as the construction phase of each project provided opportunities to engage with local labour market and supply chains. It also created opportunities for the creation of apprenticeships. A direct consequence of the construction projects was an investment into the local infrastructure including highways, safe routes to schools and flood management features. The completed proposals has led to the vacation of six school buildings which were generally in poor condition, inefficient to run and with a poor layout. The creation of onsite facilities for preschool children has improved wraparound childcare options for working parents and transition between pre-school and nursery.

The impact on a resilient Denbighshire is clear as there has been extensive investment in biodiversity and energy efficient features in all schemes. The investment in flood risk management at Glasdir and the potential for redundant sites to become woodland areas support the view that the impact is positive.

The review has delivered an increase in opportunities to promote healthy lifestyle as a result of investment in onsite and offsite facilities. The links to existing active travel routes from the new sites and an increase in numbers of pupils accessing school meals support the view that the impact has been positive. In addition the use of part of a vacated site for the expansion of facilities on the adjacent hospital site strengthens this judgement.

The positive impact with regards to cohesive communities is clear as the decision to invest and retain local rural school provision will benefit local communities to retain young families and contributes towards strengthening the Welsh language across the area.

Evidence to support the Well-being Impact Assessment

- We have consulted published research or guides that inform us about the likely impact of the proposal
- We have involved an expert / consulted a group who represent those who may be affected by the proposal
- We have engaged with people who will be affected by the proposal

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	<p>Proposals led to the vacation of six school buildings - buildings generally in poor condition, inefficient to run and in layout.</p> <p>Investment in routes and highways - safe route to school planned for Llanfair, infrastructure at Glasdir.</p> <p>Co-location of childcare at schools improves wraparound options for working parents and transition between pre-school and nursery</p> <p>Replacement sites now predominately on gas.</p> <p>Decision to retain rural provision offset potential increase in travel.</p>
Further actions required	Eligibility for home to school transport would mitigate provision lost in some areas. Redeployment procedures used extensively.

Positive impacts identified:

A low carbon society	<p>Proposals led to the vacation of six school buildings - buildings generally in poor condition, inefficient to run and in layout</p> <p>Three sites were on oil reducing reliant on fossil fuels for energy.</p> <p>Replacement sites now predominately on gas</p> <p>Decision to retain rural provision offset potential increase in travel</p>
Quality communications, infrastructure and transport	<p>Improved connectivity for schools were investment was made - some areas saw changes in investment patterns</p> <p>Investment in routes and highways - safe route to school planned for Llanfair, infrastructure at Glasdir</p>
Economic development	<p>Strong emphasis on community benefits - targets met for local spend.</p> <p>Benefits for local suppliers - used by main contractors, benefits to convenience sector - accommodation, meals etc</p>
Quality skills for the long term	Commitment to training from main contractors, sessions with local schools regarding future employment and skills
Quality jobs for the long term	<p>Success of project enabled local staff to obtain permanent jobs</p> <p>Larger sites or schools could create improved job prospects</p>
Childcare	<p>Purpose built facilities</p> <p>Co-location with schools improves wraparound options for working parents and transition between pre-school and nursery</p>

Negative impacts identified:

A low carbon society	External decisions led to the retention of two buildings in poor condition. This retains the maintenance requirements for these buildings. Potential increase in travel for pupils with reduced number of sites
Quality communications, infrastructure and transport	Lack of infrastructure in rural areas impacted on timescales for delivery of projects - i.e. requirement for drainage tank for Ysgol Carreg Emlyn
Economic development	None
Quality skills for the long term	None
Quality jobs for the long term	Nature of projects usually 10 to 18 months may restrict long term planning for jobs Reduction in staffing due to reduction in sites
Childcare	Loss of some settings

A resilient Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Extensive investment in biodiversity and energy efficient features in all schemes. Potential for redundant sites to become woodland areas. Flood risk management in Glasdir.
Further actions required	Projects worked with biodiversity officers to provide mitigating facilities, bat lofts at Glasdir & bat boxes at Llanfair - sites being monitored.

Positive impacts identified:

Biodiversity and the natural environment	Installation of infrastructure to support local wildlife - emphasis on retaining hedgerows where practical - main boundary at Glasdir is retained hedgerows
Biodiversity in the built environment	Projects worked with biodiversity officers to provide mitigating facilities, bat lofts at Glasdir & bat boxes at Llanfair - sites being monitored. Liaison with local groups to utilise facilities at sites - gardening groups use of polytunnels
Reducing waste, reusing and recycling	Schools designed to meet BREEAM targets - heavy emphasis recycling, waste diversion and energy efficient solutions. Use of sustainable systems in build - SIP panels at Glasdir, Llanfair and Clocaenog - sustainable buildings and insulation material Significant furniture used by other schools within Denbighshire Recycling of existing facilities - portable structures moved to new sites
Reduced energy/fuel consumption	Buildings designed to be more energy efficient PV panels installed at school sites - options to offset energy costs via use of reusables
People's awareness of the environment and biodiversity	Projects increased people's awareness - individual pupil sessions by contractors to raise awareness

Flood risk management	Investment at school site at Glasdir reduced flood risk due to mitigating measures and contributed to development of Taylor Wimpey housing at Glasdir site. Mitigation works in Clocaenog to offset risks for flood in village - improved drainage
------------------------------	---

Negative impacts identified:

Biodiversity and the natural environment	Loss of green field sites and hedgerows (some of the sites designated in LDP for housing development)
Biodiversity in the built environment	None
Reducing waste, reusing and recycling	None
Reduced energy/fuel consumption	Number of retained sites remain energy inefficient - issues to be addressed via capital investment by building maintenance
People's awareness of the environment and biodiversity	None
Flood risk management	Different site management requirements to manage flood risk

A healthier Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Increase opportunity to promote healthy lifestyle as a result of investment in onsite and offsite facilities. Link to existing active travel routes. Use of the vacated site for expansion of health care facilities on the adjacent hospital site. Increase in numbers of pupils accessing school meals.
Further actions required	Mitigation - consideration to transition arrangements - visits to new sites during construction for all pupils Communication with local residents - communication of awareness of key milestones

Positive impacts identified:

A social and physical environment that encourage and support health and well-being	Improved learning environment Full access to school halls and MUGA's for physical exercise. Improved connectivity for access to schools - safe routes to schools Scope for 1-2-1 / small group sessions to support pupil wellbeing Links between pre-school and statutory provision
Access to good quality, healthy food	All new sites now have on site dining facilities - number of sites either had insufficient dining facilities or used classrooms as main facility for eating

People's emotional and mental well-being	Welcoming learning environment
Access to healthcare	Vacated site has enabled expansion in facilities at Ruthin hospital
